OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 1073

# Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2019

**Dehongli**

**3.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "Atebolrwydd sydd heb ei Dalu" ("*Outstanding Liability*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 7;

ystyr "benthyciad at gostau byw" ("*loan for living costs*") yw benthyciad a geir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â Blwyddyn Academaidd 2019/2020 o dan Ran 6 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**1**) neu o dan Ran 8 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**2**) mewn cysylltiad â chwrs llawnamser;

ystyr "benthyciwr" ("*borrower*") yw person sydd wedi cael benthyciad at gostau byw;

ystyr "blwyddyn academaidd" ("*academic year*") yw'r cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar 1 Medi, 1 Ionawr, 1 Ebrill neu 1 Gorffennaf yn y flwyddyn galendr y mae blwyddyn academaidd y cwrs o dan sylw yn dechrau ynddi, yn ôl a yw'r flwyddyn academaidd honno yn dechrau ar neu ar ôl 1 Awst ond cyn 1 Ionawr, ar neu ar ôl 1 Ionawr ond cyn 1 Ebrill, ar neu ar ôl 1 Ebrill ond cyn 1 Gorffennaf, neu ar neu ar ôl 1 Gorffennaf ond cyn 1 Awst, yn y drefn honno;

ystyr "Blwyddyn Academaidd 2019/2020" ("*Academic Year 2019/2020*") yw blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2019 ond cyn 1 Medi 2020;

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;

ystyr "Deddf 2008" ("*the 2008 Act*") yw Deddf Gwerthu Benthyciadau Myfyrwyr 2008(**3**);

ystyr "Dyddiad Ad-dalu" ("*Repayment Date*") yw'r diwrnod ar ôl y dyddiad yr ystyrir bod ad-daliad cyntaf y benthyciwr ar ei fenthyciad wedi ei gael naill ai gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu gan Weinidogion Cymru, pa un bynnag yr ystyrir iddo ei gael gyntaf (yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998(**4**));

mae i "Dyddiad Bodloni" ("*Satisfaction Date*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 9;

mae "Gweinidogion Cymru" ("*Welsh Ministers*") yn cynnwys unrhyw berson y mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo neu wedi dirprwyo eu swyddogaethau iddo o dan adran 23 o Ddeddf 1998(**5**) neu unrhyw berson y maent wedi trosglwyddo eu hawliau iddo o dan adran 9 o Ddeddf 2008; ac

mae i "Swm Penodedig" ("*Specified Amount*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 6.

---

(**1**) O.S. 2017/47 (Cy. 21), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/191 (Cy. 42), O.S. 2018/814 (Cy. 165) ac O.S. 2019/235 (Cy. 54).
(**2**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), a ddiwygiwyd gan O.S, 2018/813 (Cy. 164), O.S. 2018/814 (Cy. 165) ac O.S. 2019/235 (Cy. 54).
(**3**) 2008 p. 10.
(**4**) Ar adeg gwneud y Rheoliadau hyn, penderfynir ar y dyddiad yr ystyrir bod ad-daliad benthyciwr wedi ei gael yn unol â rheoliad 17 o Reoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) 2009 (O.S. 2009/470).
(**5**) Diwygiwyd adran 23 gan adran 146 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), O.S. 2002/808 ac O.S. 2010/1158.